

A stone statue of a saint, likely Saint Deiniol, is set within a decorative Gothic-style niche on a stone wall. The statue is dressed in a long, flowing robe and a cap, and is holding a book or tablet. The wall is made of rough-hewn stone blocks. In the foreground, the top of a black metal lantern is visible.

# Buchedd Bangor



Cadeirlan Deiniol Sant  
ym Mangor  
Saint Deiniol's Cathedral  
in Bangor



**CYLCHGRAWN  
CADEIRLAN DEINIOL SANT  
YM MANGOR  
THE MAGAZINE OF  
ST DEINIOL'S CATHEDRAL  
IN BANGOR**



**TYMOR PASG 2024 | EASTERTIDE 2024  
RHAD AC AM DDIM | FREE**

# Tu mewn Inside

**4 - Y byd a'r betws**

**5 - Bangor eyes**

**8 - Paned hefo...**

Ein ddarlennydd Elma Taylor

**9 - Getting to know**

Our lay reader Elma Taylor

**14 - Ein hesgob newydd**

David Morris yn cyflwyno ei hun

**15 - Our new bishop**

David Morris introduces himself

**20 - Tu ôl i'r llen**

Rydym dringo Tŵr Skeffington

**21 - Behind the scenes**

We go up the Skeffington Tower

**28 - Grym cariad**

**29 - The power of love**

**36 - Ein cymdogaeth**

Pa fusnes yn y ddinas sy'n 90 oed?

**37 - Our neighbourhood**

Which city business is 90 years old?

**44 - Casgliad Storiel**

**45 - Storiel Collection**

**50 - Dyddiadur**

**51 - Diary**



# Croeso Welcome



## Croeso i'r rhifyn diweddaraf hwn o Fuchedd Bangor, cylchgrawn Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.

"Buchedd" ydy'r hen enw Cymraeg a roddwyd ar gofnod bywyd rhywun, yn aml yn adrodd straeon seintiau Celtaidd Cymru. Erbyn hyn, yn 2024, mae'n dynodi cofnod o fywyd cymuned ein cadeirlan a'n dinas, gyda myfyrdodau ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd gyda'n gilydd.

Mae'r wythnosau sy'n dilyn y Pasg bob amser yn atgoffa am ddechreuadau newydd, wrth i gefn gwlad o'n cwmpas lenwi â bywyd newydd y gwanwyn, ac yn ein gwasanaethau fe glywn ninnau hanesion yr eglwys fore o Lyfr Actau'r Apostolion.

Y Pasg hwn, mae i ninnau hefyd ein dechreuadau newydd wrth i'n Hesgob Cynorthwyol gael ei gysegru. Mae'r Parch David Morris yn rhannu ei feddyliau yn y rhifyn hwn am yr hyn y mae'r rôl newydd hon yn ei olygu iddo fo - ac i'r esgobaeth. Ac mae'r Parch Ddr John Prysor Jones yn rhannu stori rymus am y ffordd y gall maddeuant arwain at ddechreuadau newydd, hyd yn oed wedi'r troseddau mwyaf difrifol.

Mae'r gadeirlan yn parhau i fod yn le prysur. Ond yn y rhifyn hwn o Buchedd Bangor, fe fyddwn ni'n cymryd golwg arni o ogwydd wahanol, wrth inni ddringo 42 gris Tŵr Skeffington (llun ar y chwith). Ac fe fyddwn ni'n canfod sut y bu un o'r bobl a welir wrth yr allor ar y Suliau yn aelod o un o fandiau oedd yn y deg uchaf yng Nghymru ar un adeg.

Estynnwn ein diolch i bawb sy'n gwneud i fywyd-bobdydd y gadeirlan ddigwydd. Diolch hefyd i chi am godi copi o'r cylchgrawn hwn - gobeithio y gwnewch fwynhau ei ddarllen.

## Welcome to this latest issue of **Buchedd Bangor, the magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.**

"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, often telling the stories of the Celtic saints of Wales. Now in 2024, it's a record of the life of our cathedral and city community, with spiritual reflections and practical information about our life together.

The weeks after Easter always remind us of new beginnings, as the countryside around us bursts forth with the new life of spring, and we hear the stories of the early church from the Acts of the Apostles read out in our services.

This Eastertide, we have our own new beginnings as our new Assistant Bishop is consecrated. Canon David Morris shares his thoughts in this edition on what this new role means for him - and for the diocese. And the Revd Dr John Prysor Jones shares a powerful story about how forgiveness can lead to new beginnings, even after the most serious of crimes.

The cathedral continues to be a busy place. But in this edition of Buchedd Bangor, we'll be looking at it from a different angle, as we go up the 42 steps of the Skeffington Tower (pictured opposite page). And we'll be finding out how one of the people you see at the altar on Sundays was once in a top ten Welsh band.

Our thanks to everyone who makes the daily life of the cathedral happen, and to you for picking up a copy of this magazine - we hope you enjoy reading it.

## **Y Tîm Golygyddol** **The Editorial Team**

Chris Dearden

Josie Godfrey

Sam Jones

Tracy Jones

Sara Elin Roberts

Tim Petts





# Y byd a'r betws

## Bangor eyes



Gorymdeithiodd cannoedd o blant heibio'r gadeirlan ac o amgylch y ddinas i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Daeth y digwyddiad i ben gyda pherfformiad cerddorol yn yr adeilad ei hun.

**Hundreds of children paraded past the cathedral and around the city to celebrate St David's Day.**

**The event ended with a musical performance in the building itself.**

Arweiniodd dau asyn, Winifred a Jenny, yr orymdaith o'r Gadeirlan i'r Stryd Fawr ar fore Sul y Blodau. Hefyd am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd canwyd y clychau yn nhŵr Skeffington o flaen gwasanaeth, wedi iddynt gael eu hatgyweirio.

**Two donkeys, Jenny & Winifred, led the procession from the cathedral to the High Street on Palm Sunday morning. The newly-repaired bells in the Skeffington tower were also rung before a service for the first time in several years.**



Mae bywyd cerddorol y gadeirlan yn parhau'n brysur gyda'r côr yn canu mewn 14 o wasanaethau dros wyth niwrnod dilynol yn ystod yr Wythnos Fawr. Roedd hyn yn cynnwys cyngerdd "From Palms to Passion", gyda cherddoriaeth gan Bach, Charpentier a Pergolesi..... a gwasanaeth yn cynnwys pump o gerddi R.S.Thomas nas cyhoeddwyd o'r blaen, wedi'u gosod i gerddoriaeth a'u clywed gan gynulleidfa am y tro cyntaf.

Mae'r adran gerdd bellach yn gweithio tuag at wasanaeth cysegru ein Hesgob Enlli newydd ym mis Mai, a fydd yn cynnwys cyfansoddiad newydd arall gan glerc lleyg y gadeirlan, Simon Ogdon. Mae manylion yr holl gerddoriaeth yn y gwasanaethau, ynghyd â'r datganiadau amser cinio ar Ddydd Iau, yng nghefn y cylchgrawn hwn.



Cinio dewch a rhannu nesaf: 28 Ebrill a 30 Mehefin, ar ôl y Choral Holy Eucharist.

Next bring and share lunches: 28 April and 30 June after the Choral Holy Eucharist



The musical life of the cathedral continues to be busy with the choir singing 14 services over eight consecutive days during Holy Week. This included a concert "From Palms to Passion", featuring music by Bach, Charpentier and Pergolesi..... and a service featuring five unpublished poems by RS Thomas, set to music and heard by an audience for the first time.

The music department is now working towards the consecration service of our new Bishop of Bardsey in May, which will include another new composition by cathedral lay clerk Simon Ogdon. Details of all the music at services and our Thursday lunchtime recitals are at the back of this magazine.



# Y byd a'r betws

## Bangor eyes



Our weekly baby and toddler group, Camau Bach, had a surprise visit from Dewin the wizard and Selog the dragon.

They popped up as part of a "stori a chân" session arranged by Cymraeg i Blant Arfon and Mudiad Meithrin; both organisations provide support to parents, carers and children to develop their skills in Welsh.

Camau Bach runs every Tuesday during term time from 9-10.30am for ages 0-4 years. It is free to come along with no booking required. Health Visitors are also available during the sessions to offer advice and support.

Derbyniodd ein grŵp babanod a phlant bach, Camau Bach, ymweliad annisgwyl gan Dewin a Selog y ddraig.

Fe ddaethon nhw draw fel rhan o sesiwn "stori a chân" a drefnwyd ar y cyd gan Cymraeg i Blant Arfon a'r Mudiad Meithrin; mae'r ddau fudiad yn daparu cefnogaeth i rieni, gofalwyr a phlant i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Mae Camau Bach ar agor pob dydd Mawrth yn ystod cyfnod tymor ysgol rhwng 9 a 10.30yb i rai rhwng 0 a 4 oed. Mae'n rhad ac am ddim i fynychu a does dim angen archebu lle ymlaen llaw. Mae Ymwelwyr lechyd hefyd ar gael yn ystod y sesiwn i gynnis cyngor a chymorth.





Rydyn ni wedi symud cam yn agosach at sicrhau diffibriliwr yn y gadeirlan, diolch i'r arian a godwyd gan Elma Taylor.

Bydd y diffibriliwr yn cael ei osod i ddechrau ger yr organ, gan wasanaethu hefyd fel un ychwanegol i'r ddinas, i ategu'r un sydd eisoes ar gloc y dref (a welir yma gyda'r Canon David Morris wrth ei ymyl).

**We have moved a step closer to having a defibrillator at the cathedral, thanks to fundraising by Elma Taylor.**

**The defib will initially go close to the organ, and will be an extra resource to complement the one already on the town clock (seen here with Canon David Morris posing alongside).**



Diolch i: Cymraeg i Blant Arfon, Chris Davies, Yasmin da Rosa, Jonathan Harty a Snowdonia Donkeys am y lluniau yn yr adran hon.

**Thanks to: Cymraeg i Blant Arfon, Chris Davies, Yasmin da Rosa, Jonathan Harty and Snowdonia Donkeys for pictures in this section.**

Mae Cadeirlan Deiniol Sant wedi gwneud cais am statws "Eco-eglwys". Mae'n ddyfaniad sy'n adlewyrchu pa mor dda rydyn ni'n gofalu am yr amgylchedd mewn gwahanol feysydd yn ein gwaith, o ymgysylltu cymunedol i ofal am ein hadeiladau. Rhoddir dyfarniad ar dair lefel, sef efydd, arian ac aur.

Rydyn ni'n ystyried plannu llecynnau o flodau gwylltion mewn rhannau o Glos y Gadeirlan, i ychwanegu fflach o liw, ynghyd â chreu cynefin i beillwyr, megis gwenyn a phryfetach eraill.

**St Deiniol's Cathedral has applied for "Eco Church" status. It's an award which reflects how well we care for the environment in different areas of our work, from community engagement to worship and care of our buildings. There are three levels of award: bronze, silver and gold.**

**We're looking at growing patches of wildflowers in parts of the Cathedral Close, adding a splash of colour, and creating a habitat for bees and pollinating insects.**



# Paned hefo...

## Elma Taylor

Ym mhob rhifyn o **Fuchedd Bangor**, rydym yn cwrdd ag aelod o gymuned y Gadeirlan.

Y tro hwn, fe ddown i nabod Elma Taylor, ein darlennydd.

Bu hi'n sgwrsio gyda **Chris Dearden** yn y Clio Lounge am ffydd, nyrsio, a bod yn rhan o fand genod.....


**Rydyn ni'n eich gweld yn sefyll y tu ôl i'r allor ac yn y pulpud ar y Sul, ond nid offeiriad ydych chi?**

Na, darlennydd lleyg ydw i. Mae'r rhan "lleyg" yn golygu mod i'n un o'r lleygwyr sef, mewn geiriau eraill, pobl sydd heb eu hordeinio yn offeiriad. Ond mi rydyn ni wedi'n hyfforddi a'n trwyddedu i bregethu ac arwain addoliad. Fe ga i gymryd angladdau, er enghraifft, ac rydyn ni hefyd yn helpu gyda gwaith yr eglwys yn fwy cyffredinol.

**A be mae'r rhan "darlennydd" yn ei feddwl?**

Mae'n hen deitl o gyfnod yr eglwys fore pan nad oedd pawb yn medru darllen, ac fe benodwyd pobl i wneud y darlleniadau mewn gwasanaethau. Ond yn sicr, roedd yna ddigon o ddarllen fel rhan o'r hyfforddiant! Roedd fel gwneud gradd prifysgol yn fy amser sbâr. A doedd yna fawr o hwnnw 'chwaith - fy mhrif waith oedd fel nyrs. Fe dreuliais i 43 mlynedd yn nyrsio, gan ddechrau yn niwed y '70au yn yr adran gofal dwys yn yr hen Môn ac Arfon ym Mangor Uchaf - sef y safle lle mae Morrisons bellach. Yna, fe symudais at ofal yr henoed yn Ysbyty Dewi Sant - sef lle gwelir Matalan erbyn hyn.

Yn nechrau'r '80au, symudodd ein ward ni i'r ysbyty newydd sbon, Ysbyty Gwynedd. Ni oedd yr adran gyntaf i symud i adeilad newydd, a oedd yn golygu, am amser byr, mai teimlad





# Getting to know...

## Elma Taylor

In each edition of **Buchedd Bangor**, we meet another member of the cathedral community.

This time, we get to know Elma Taylor, our lay reader.

She talked to **Chris Dearden** in the Clio Lounge in Bangor about faith, nursing, and being in a girl band.....





digon rhyfedd oedd bod mewn adeilad gwag mor enfawr, yn ogleuo o baent, heb neb arall yno. Roedd cymryd y lifft i fyny at Ward Moelwyn ar y trydydd llawr yn brofiad digon annifyr yn y tawelwch llethol.

**Felly, mae eich gwasanaeth i'r eglwys wastad wedi cydreddeg â swydd llawn amser?**

Bron iawn bob tro, ia. Roedd yn rhaid imi roi'r gorau i nyrsio pan fu farw fy chware hŷn o gancr pancreatig. Hi fu'r ysbrydoliaeth imi fynd yn nyrs - wnes i ddechrau fy hyfforddiant wrth iddi hi gymhwyso ym 1975. Ond roedd gweld ei cholli'n ei gwneud hi'n anodd iawn imi ddal ati. Wedi hynny, fe fues i'n gweithio i'r gadeirlan fel gofalwr eglwys. Mae golchi llawr y côr yn beth eitha' therapiwtig!

Roeddwn i'n dal yn y swydd honno pan ddaeth y gadeirlan yn ganolfan frechu yn ystod y pandemig. Roeddwn i'n reit browd ohonon ni am wneud y fath beth - roedd hi fel 'tae'r ddau fyd a fu'n rhan fawr o 'mywyd i wedi dod ynghyd. Roedd hi hefyd yn golygu mod i'n gwybod ymlaen llaw pa mor lân fase'r GIG angen i'r lle fod - nid peth hawdd bob amser mewn adeilad lle'r oedd pob twll a chornel yn 500 mlwydd oed!

Ond dwi wastad wedi bob yn brysur. Ar un adeg, ro'n i'n fodel, ac yn 15 oed, fues i'n aelod o fand genod o'r enw "Yr Awelon". Fe wnaethon ni ryddhau pum cân ar EP feinyll (fel mini albwm) a chyrrhaeddodd un ohonyn nhw, "Y Caban Coffi", rif dau yn siartiau Cymru ac mae'n dal i'w chlywed ar Radio Cymru o bryd i'w gilydd.





## **We see you standing behind the altar and in the pulpit on Sundays, but you're not a priest?**

No, I'm a lay reader. The "lay" bit means I'm part of the "laity"; in other words, people who are not ordained as priests. But we are trained and licensed to preach and lead worship. I can take funerals, for example, and we also help out with the work of the church more generally.

## **And what does the "reader" bit mean?**

It's an old title from the early church when not everyone could read, and people were appointed to do the readings at services. But there was certainly a lot of reading as part of the training! It was like doing a university degree in my spare time. And I didn't always have a lot of that - my main job was as a nurse. I spent 43 years in nursing, starting in the late 1970s in intensive care at the old C&A hospital in Upper Bangor - Morrisons is now on the site. Then I moved to care for the elderly in St David's Hospital - which was where Matalan is now.

In the early 1980s, our ward moved to the brand new Ysbyty Gwynedd. We were the first department to move to the new building, which meant that for a short time, the place was quite scary as it was a huge empty building, smelling of fresh paint, but with no-one else there. Taking the lift up to Moelwyn Ward on the third floor was quite creepy in the eerie silence.

## **So your service to the church has always been alongside a full time job?**

Almost always, yes. I had to give up nursing when my older sister died of pancreatic cancer. She had been my inspiration to become a nurse - I started my training as she qualified in 1975. But her passing made it very hard to carry on. After that, I did work for the cathedral as a verger. Washing the floor in the nave is quite therapeutic!

I was still in that job when the cathedral became a vaccination centre during the pandemic. I was quite proud of us for doing that, because it was like the coming together of the two worlds that had been a large part of my life. It also meant that I knew in advance how clean the NHS would need the place to be - not always easy in a building with 500-year-old nooks and crannies!

But I've always been busy. I was a model at one point, and when I was 15, I was part of a girl band called "Yr Awelon". We released five songs on a vinyl EP (basically a mini album) and one of them, "Y Caban Coffi", got to number two in the Welsh charts and still gets played on Radio Cymru from time to time.

## **How did you get involved in the church in the first place?**

I always joke it was inevitable - I was born in a place which features in the Bible! The village where I come from was called Cesarea at the time (nowadays it's known as Y Fron), which is the name of the place



### **Sut wnaethoch chi ddod i fod yn rhan o'r eglwys yn y lle cyntaf?**

Dwi wedi jocio erioed mai rhywbeth anorfod oedd o - fe ges fy ngeni mewn lle sy'n cael ei henwi yn y Beibl! Enw'r pentref oedd Cesarea ar y pryd (erbyn heddiw, mae'n cael ei nabod fel Y Fron), sef enw'r fan lle cyhoeddodd Pedr mai Iesu oedd Mab Duw. Roedd y teulu'n mynychu capel y Methodistiaid a thra'r oeddwn i'n dal yn yr ysgol, ro'n i'n arfer arwain gweddiâu, yn enwedig os nad oedd pregethwr ar gael ambell Sul.

### **Capel? Felly, nid Eglwyswraig fuoch chi erioed?**

Naci - fe ddois i'n Eglwyswraig fel canlyniad i fetu â chael plant. Fe wnaethon ni drïo IVF ond ddaru o ddim gweithio - y diwedd fu imi golli tripledi. Ond os oeddech chi am fabwysiadu plant bryd hynny, dim ond dwy ffordd oedd o wneud hynny, un ai trwy'r cyngor lleol neu drwy'r Eglwys yng Nghymru.

### **.....felly, dyma chi'n mabwysiadu trwy'r Eglwys yng Nghymru?**

A dweud y gwir, ddwedon nhw "na"! Mabwysiadu'n mab trwy'r cyngor lleol wnaethon ni yn y diwedd. Ond roedd fy ngŵr yn Eglwyswr, a dyma fi'n meddwl "waeth i minnau ymuno hefyd!" a dechreuais fynychu Eglwys Sant Pedr ym Mhenrhosgarnedd, a oedd yn agos i'n cartref. Yn y fan honno y gwnes i ddilyn cwrs archwilio'r ffydd a arweiniodd at hyfforddiant fel darllenydd lleeg.

Dwi'n credu'n gryf fod gan Dduw gynllun inni, llwybr inni'i ddilyn. Yn amlwg, ein dewis ni ydy o, a'r rhan anoddaf ydy dirnad beth mae Duw am inni'i wneud. Fel arfer, mae'n golygu llawer o weddi, ond 'da chi'n cael y teimlad hwnnw ym mêr eich esgyrn fod rhywbeth yn "iawn". Dyna sut mae'n teimlo yn fy rôl ddiweddaraf - bod yn Gaplan Anna. Mae tair ohonon ni yn y gadeirlan, ac rydyn ni'n ymweld â phobl hŷn mewn cartrefi gofal a hosbisau.

Mewn gwirionedd, dechrau wnaeth hyn yn ystod y pandemig pan oedd eglwysi ynghau ac fe roddwyd darn o bapur imi, gan ofyn imi ffonio pobl yn y gynulleidfa er mwy cadw mewn cysylltiad â nhw. Yn aml iawn, fe faswn i ar y ffôn am hydoedd, yn enwedig gyda phobl hŷn oedd heb deulu'n byw'n agos yn ystod y cyfnodau clo. Roeddwn i'n teimlo'n gryf iawn bod yr henoed yn cael eu hesgeuluso, a theimlais yr alwad i wneud rhywbeth yn ei gylch.


Ac o ran be sy' nesa'? Wel, pwy a wŷr, ond dwi'n credu y bydd Duw yn dweud wrtha i pan fo'r amser yn iawn. **[B]**

**Tudalen nesaf, uchod: yr albwm byr a recordiwyd gan fand Elma, Yr Awelon. Mae'r trac cyntaf, "Y Caban Coffi", yn dal i gael ei chwarae ar BBC Radio Cymru.**

**Next page, top: the EP recorded by Elma's band, Yr Awelon. The first track "Y Caban Coffi" still gets played on BBC Radio Cymru.**







where Peter proclaimed Jesus to be the Son of God. Our family went to the Welsh Methodist chapel there and while I was still at school, I used to lead prayers, particularly if there wasn't a minister there that Sunday.

**Chapel? So you haven't always been an Anglican?**

No - I became an Anglican because we couldn't have children. We tried IVF and it didn't work - I ended up losing triplets. But if you wanted to adopt children at the time, there were two ways you could do it, through the local council or through the Church in Wales.

**.....So you adopted through the Church in Wales?**

They said "no", actually! We adopted our son through the local council in the end. But my husband was an Anglican, and I thought "if you can't beat them, join them", and started going to St Peter's in Penrhosgarnedd, which was close to where we live. That was where I did an exploring faith course which then led on to training as a lay reader.

I believe strongly that God has a plan for us, a path for us to take. Obviously it's our choice as to whether we take it, and the hardest part is actually knowing what God wants us to do. Usually it involves plenty of prayer, but you just get that instinct that something "feels right". That's how it feels with my latest role - being an Anna Chaplain. There are three of us in the cathedral, and we visit older people in care homes and hospices.

It actually started during the pandemic when the churches were closed and I was given a sheet of paper and told to ring round people in the congregation, just to stay in touch. I was often on the phone for ages, particularly to older people whose family weren't nearby during the lockdowns. I felt quite strongly that elderly people were neglected, and felt called to do something about it.

As for what's next? Who knows, but I believe God will tell me when the time is right. **[B]**



# Ein hesgob newydd



*Anwyl gyfkeillion,*

Pan wnes i ddychwelyd i Fangor ym mis Mai 2022 i ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Gweinidogaeth ac fel canon preswyl yn y gadeirlan, faswn i byth wedi dychmygu - bron i ddwy flynedd yn ddiweddarach - y baswn i'n sgwennu'r darn hwn yn cyflwyno fy hun fel eich darpar Esgob Cynorthwyol.

Dwi'n teimlo'n ostyngedig iawn, wedi gwirioni ac yn dawel arswydd o feddwl imi dderbyn cynnig hael yr archesgob i rannu ei weinidogaeth a goruchwyliaeth yr esgobaeth yn y modd yma. Mae anferthedd y cyfrifoldeb a ymddiriedwyd imi yn rhywbeth rydw i'n ymwybodol iawn ohono ac fe ymdrechaf i fod yn warchodwr a bugail ffyddlon.

Fedra i ddim ond ymgymryd â'r weinidogaeth hon trwy ras Duw, wedi'm cryfhau trwy weddi a chyda'ch cydweithrediad chithau o ran cenhadu ac efengylu.

Dwi am ddiolch yn ddiffuant ichi am y rhan y mae llawer ohonoch chi wedi'i chwarae ar fy nhaith galwedigaethol hyd yn hyn, trwy eich anogaeth a'ch caredigrwydd. Er na fyddaf mor bresennol o amgylch y gadeirlan cymaint ag y fues i, fe fydd fy swyddfa yn Nhŷ Deiniol ac rydych chi'n debygol o 'ngweld i'n weddol aml o gwmpas clôs y gadeirlan.



# Our new bishop

Ar 11 Mai, bydd y **Canon David Morris** yn cael ei gysegru a'i sefydlu yn Esgob Cynorthwyol Bangor. Bydd yn dilyn traddodiad o arweinwyr sydd yn mynd yn ôl bron i fileniwm a hanner i gyfnod Deiniol. Ei swyddogaeth fydd i helpu'r Archesgob Andy John gyda busnes o ddydd i ddydd yr esgobaeth. Gofynasom i David ei gyflwyno ei hun ac egluro ei flaenoriaethau ar gyfer yr eglwys yn ein hardal.....

On 11th May, **Canon David Morris** will be consecrated and installed as Assistant Bishop of Bangor. He follows a tradition of leaders stretching back almost a millennium and a half to St Deiniol. His role will be to help Archbishop Andy John with the day-to-day business of the diocese. We asked David to introduce himself and explain what will be his priorities for the church in our area.....

Dear friends,

When I returned to Bangor in May 2022 to take up the post of Director of Ministry and as a residentiary canon at the cathedral, I would never have dared imagine that - not far off two years later - I would be writing this piece to say a little something as your Assistant Bishop designate.

I'm deeply humbled, absolutely delighted and quietly terrified to have accepted the archbishop's generous invitation to share in his ministry and oversight of the diocese in this way. The enormity of the responsibility being entrusted to me is something I'm very conscious of and I will endeavour to be a faithful steward and shepherd.

I can only undertake this ministry with the grace of God, strengthened by prayer and with your collaboration in mission and evangelism.

I want to thank you sincerely for the part many of you have played in my vocational journey to this point, with your encouragement and kindness. While I will not be as present around the cathedral as much as I have been, my office will be in Tŷ Deiniol and you are likely to still often see me around the cathedral close.

I have adopted as my title "The Bishop of Bardsey", a title not used before. It is customary for bishops to have





Dwi wedi mabwysiadu i fi fy hun y teitl “Esgob Enlli”, teitl nas defnyddiwyd o’r blaen. Mae’n draddodiadol i esgobion gael eu henwi’n esgob i le daearyddol, sef ‘esgobaeth deitlog’, er mai gwasanaethu fel esgob cynorthwyol i Esgobaeth Bangor fydda i mewn gwirionedd.

Yn arferol, fe fasen ni’n defnyddio teitl esgobaeth flaenorol a fu ag esgob iddi, ond mae Esgobaeth Bangor mor hynafol fel mai dim ond esgobion Bangor fu erioed yn y rhanbarth hon. Felly, crëwyd yr esgobaeth deitlog hon o’r newydd ac fe ddewisais i Enlli am sawl rheswm.

Yn gyntaf, mae hi’n safle hynafol o dystiolaeth a phererindod Gristnogol sy’n dyddio’n ôl i’r 6ed Ganrif, ac yn safle mynachlog Cadfan Sant.

Yn ail, mae ganddi gysylltiadau cryf â’m hesgobaeth gartref innau, gan y credir i Sant Dyfrig, a fu unwaith yn esgob De-Ddwyrain Cymru, farw ar Ynys Enlli a chafodd ei weddillion eu cludo’n ddiweddarach i Gadeirlan Llandaf.

Yn drydydd, roedd gan fy rhagflaenydd fwriad i fabwysiadu esgobaeth deitlog cyn iddi gael ei hethol yn Esgob Llandaf; felly, mae’n fraint imi anrhydeddu bwriad Esgob Mary gyda diolchgarwch am ei gweinigogaeth yn yr esgobaeth hon, ynghyd â’i chyfeillgarwch.

Yn olaf, mae Enlli’n ynys i bawb ac yn un sy’n annwyl iawn ac a ystyrir



Mae David hefyd yn Gomander gydag Urdd Sant Ioan ac yn gaplan i Ambiwlan St Ioan

David is also a Commander of the Order of St John and chaplain to St John Ambulance



a geographical entity of which they are named bishop called a 'titular see', even though I will serve as assistant bishop in the Diocese of Bangor.

We would ordinarily use the title of a former diocese which once had a bishop, but the Diocese of Bangor is so ancient that there have only ever been bishops of Bangor in this region. Therefore, this new titular see has been created and I've chosen the island of Bardsey for several reasons.

Firstly, it is an ancient site of Christian witness and pilgrimage dating back to the 6th Century, and it is the site of St Cadfan's monastery.

**I've been referred to as the first "millennial bishop", and it's my hope to connect with younger generations in new ways.**


Secondly, it has strong links with my home diocese as St Dyfrig, once bishop of South-East Wales, is believed to have died on Bardsey and his remains were later transferred to Llandaff Cathedral.

Thirdly, it had been the intention of my predecessor to adopt the same titular see before her election as Bishop of Llandaff; therefore, it is my privilege to honour Bishop Mary's intention with thanksgiving for her ministry in this diocese and her friendship.

Finally, Bardsey is an island for everyone and one held in high affection as a holy and sacred place. It is my hope that I can be a bishop for all and through my ministry encourage pilgrimage to Bardsey along the pilgrims' ways we are promoting and developing in the diocese.

In addition to being named the new Bishop of Bardsey, I've also been referred to by some on social media as the first "millennial bishop". I'm not sure how true that is, but I am certainly a "geriatric millennial"!

It's my hope that, in being appointed bishop at a relatively young age I might be able to engage and connect with those of my generation - and younger - in new and meaningful ways. It's a generation which has drifted away from the church, and I want to make connections between their life experiences and the riches of faith.



yn lecyn sanctaidd a chysegredig; fy ngobaith innau ydy y galla i fod yn esgob i bawb a thrwy fy ngweinidogaeth, annog pererindota i Enlli ar hyd llwybrau'r pererinion sy'n cael eu hyrwyddo a'u datblygu ganddon ni yn yr esgobaeth.

Yn ychwanegol at gael f'enwi yn Esgob newydd enlli, fe gyfeiriwyd ata i gan rai ar y cyfryngau cymdeithasol fel yr "esgob milflwyddol" cyntaf. Dydw i ddim yn siwr pa mor wir ydy hynny, ond yn sicr, mi rydw i'n "geriatrig milflwydd"!

## Fy ngobaith a'm gweddi ddiffuant ydy y bydd praidd yr esgobaeth hon yn dod i fy nabod i a finnau'n dod i'w nabod nhw.

Fy ngobaith ydy, wrth gael fy mhenodi'n esgob gymharol ifanc, y bydda i, efallai, yn medru ymgysylltu â'r rhai hynny o'r un genhedlaeth â mi - neu'n iau - a hynny mewn ffyrdd newydd ac ystyrlon. Mae hi'n genhedlaeth goll sydd wedi rhyw araf lithro o afael a golwg yr eglwys ac mi rydw i eisiau gwneud y dolenni cyswllt rheini rhwng eu profiadau bywyd a chyfoeth ein ffydd.

Yn Ordinal yr Eglwys yng Nghymru (y llyfr gwasanaeth a ddefnyddir mewn ordeiniadau) fe ddown o hyd i'r geiriau hyn a gymerir o "Y Siars". Fe'u cyfeirir at yr ymgeisydd sydd i'w wneud yn esgob:

"Gelwir esgobion i wasanaethu pobl Dduw ac i ofalu amdanynt. Gan ddwyn ar gof y bugail da, a roes ei fywyd dros ei ddefaid, y maent i garu'r rhai a osodwyd yn eu gofal ac i weddio drostynt, gan adnabod eu pobl a bod yn adnabyddus iddynt."

Fy ngobaith a'm gweddi ddiffuant ydy y bydd praidd yr esgobaeth hon yn dod i fy nabod i a finnau'n dod i'w nabod nhw, tra hefyd yn fwriadol yn ceisio'r colledig a'u hebrwng yn ôl at gorlan Crist.

Gobeithio y bydd modd ymgymryd â'r gwaith hwn ar y cyd a bod yn eofn yn ein hymdrechion i helpu eraill i sylweddoli a chydabod bod y bugail da yn eu nabod ac y down nhw i'w nabod yntau.

Yr eiddoch yn ffyddlon yng Nghrist,







David gydag aelodau o'i deulu ar adeg ei sefydlu fel canon yn 2022.

**David with family members at his installation as canon in 2022.**

In the Ordinal of the Church in Wales (the service book used at ordinations) we find these words taken from "The Charge". They are directed towards the candidate to be made a bishop:

"Bishops are called to serve and care for the people of God. Mindful of the good shepherd, who laid down his life for his sheep, they are to love and pray for those committed to their charge, knowing their people and being known by them."

It is my sincere hope and prayer that I might know and be known by the flock in this diocese, while also intentionally seeking out the lost and guiding them into the fold of Christ.

I hope we can undertake this work together and be bold in our endeavours to help others recognise they are known by the good shepherd and that they might know him.

Devotedly yours in Christ,





Aine Guy ar ben Tŵr Skeffington  
Aine Guy on top of the Skeffington Tower

# Tu ôl i'r llen

## Behind the scenes

P'un ai eich bod yn mynychu Cadeirlan Deiniol Sant sawl gwaith yr wythnos, neu'n ymweld am y tro cyntaf, mae'n debygol fod yna rai mannau yn ac o amgylch yr adeilad na fuoch chi ynddy'n nhw erioed.

Yn y rhifyn hwn, mae **Chris Dearden** yn cael cyfle i fentro dringo un o'r ysgolion hiraf ym Mangor.....

Whether you're in St Deiniol's Cathedral several times a week, or are visiting for the first time, there are probably places in and around the building that you've never been.

In this edition **Chris Dearden** gets to try out one of the longest ladders in Bangor.....





## “Paid â sbïo’i lawr, paid ag edrych i fyny, canolbwyntia ar y gris rwyf ti’n sefyll arni ar hyn o bryd.”

Gall honno’n hawdd fod yn llinell fachog o bregeth, ond mae Aine Guy yn siarad am rywbeth mwy ymarferol a phresennol. Yma ydw i, wedi fy ngwasgu mewn siafft tua lled ciwbicl tŷ bach, sy’n rhedeg uchder llawn Tŵr Skeffington.

Oddi fewn i’r gwagle cyfyng hwn mae ysgol alwminiwm; mae Aine ar y pen ucha’, yn ceisio gweiddi ei chynghorion i lawr ata i ynghylch sut i’w ddringo. Dydy dringo 42 gris ddim yn swnio’n anodd, heblaw bod y grisiau metal yn oer, gan dynnu’r gwres o’ch dwylo. Ac mae’r rhychau yn y metal yn frwnt yn erbyn cnawd eich dwylo.

“Mae hi’n dipyn o boen cyrraedd y top a sylweddoli eich bod wedi anghofio rhywbeth ar y gwaelod”, meddai Aine yn jocio wrth inni lusgo’n hunain i fewn i siambr y gloch.

Tŵr Skeffington ydy’r un sydd â’i fynedfa ar y gwaelod, a chloc a chlychau’r gadeirlan ar y top. Daw’r enw o’r ffaith iddo gael ei adeiladu oddeutu 1532 ar orchymyn Thomas Skeffington, a fu’n esgob Bangor o 1509 i 1533. Fo hefyd roddodd do ar gorff yr eglwys a chwblhau palas newydd i’r esgob, sydd bellach yn fwy adnabyddus fel y Storiol, gyferbyn â’r eglwys gadeiriol.

Nid esgob Bangor yn unig oedd Skeffington; roedd hefyd yn abad i ddwy fynachlog - Beaulieu yn Swydd Hampshire a Waverley yn Surrey. Ac roedd mor gyfoethog fel y byddai pobl yn ei alw’n “abad cyfoethocaf y Byd Cristnogol”. Mae bron yn sicr mai fo dalodd am lawer o’r gwaith adeiladu ei hun oherwydd, wedi ei farw ym 1533, daeth y gwaith ar y tŵr i ben .

Gadawodd Skeffington gyfarwyddiadau yn ei ewyllys y dylid ei gwblhau gyda tho, ffenestri a chlychau, ond gyda’i farwolaeth, mae’n debyg na wireddwyd ei ddymuniad a diweddodd y tŵr yn llai nag a fwrriadwyd. Yn ôl y sôn, fuodd o ’rïoed ym Mangor ei hun ond, wedi ei farw, fe dynnwyd ei galon o’i gorff a’i chladdu mewn arch blwm ger y brif allor.

Mae’n debygol fod y clochdy ar ben ucha’r tŵr yn edrych fel y byddai yn oes yr Esgob Skeffington. Mae’n teimlo ychydig fel bod mewn ffrâm ddringo plentyn, gan nad ydych chi’n sefyll ar lawr ond, yn hytrach, yn gweu eich hun i fyny cyfres o ysgolion pren dros rodfeydd pren gyda rhai o’r clychau oddi tanoch.

“Tair cloch sydd yma ar hyn o bryd,” meddai Aine. “Rydym newydd drwsio’r ddwy leiaf ohonynt fel bod modd eu canu gan ddefnyddio rhaffau clychau sy’n hongian i lawr i waelod y tŵr. Ond mae angen gwneud hyn yn ofalus ar hyn o bryd oherwydd mae’r mecanwaith yn fregus iawn. Roedd modd canu’r gloch fwyaf gyda rhaff o’r blaen, ond erbyn hyn mae’r mecanwaith wedi pydru. Rydych yn dal i allu



## “Don’t look down, don’t look up, just concentrate on the step you’re on!”

It could be a line from a sermon, but Aine Guy is talking about something more practical and immediate. I’m wedged in a shaft about the width of a toilet cubicle, which runs the full height of the Skeffington Tower.

Inside this confined space is an aluminium ladder; Aine is at the top, shouting down advice on how to climb it. Climbing 42 steps doesn’t sound hard, except that the metal rungs are cold, and draw the heat out of your hands. And the ridges in the metal dig into your fingers.

“It’s a bit of a pain if you get to the top and discover that you’ve left something at the bottom”, Aine jokes as we haul ourselves into the bell chamber.

The Skeffington Tower is the one with the entrance door at the bottom, and the cathedral’s clock and bells at the top. It gets its name because it was built around 1532 on the orders of Thomas Skeffington, who was bishop of Bangor from 1509 to 1533. He also put a roof back on the nave and completed a new bishop’s palace, which is now the Storiel museum opposite the cathedral.

Skeffington wasn’t just the bishop of Bangor; he was also the abbot of two monasteries - Beaulieu in Hampshire and Waverley in Surrey. And he was so wealthy that people called him “the richest monk in Christendom”. He almost certainly paid for much of the building work himself, because when he died in 1533, work on the tower stopped.

Skeffington left instructions in his will that it should be finished with a roof, windows and bells, but his death probably meant that it ended up being less tall than originally intended. It’s reported that he never actually set foot in Bangor, though when he died, his heart was taken out of his body and buried in a lead coffin near the high altar.

The bell chamber at the top of the tower probably looks very similar to Bishop Skeffington’s time. It feels a bit like being in a child’s climbing frame because you don’t stand on the floor, you pick your way up old wooden ladders and over wooden walkways with some of the bells below you.

“There are three bells up here at the moment”, says Aine. “We’ve just fixed the two smaller ones so they can be rung using bell ropes that hang down to the bottom of the tower. But it needs to be done carefully because the mechanism is fragile.

“The biggest bell used to be able to ring on a rope, but the mechanism has rotted away. You do still hear it as it’s used for the clock chime on the hour.



ei chlywed gan ei bod yn cael ei defnyddio i wneud i'r cloc daro'r awr.

"Mae hi'n gloch drawiadol - yn pwyso oddeutu 30 canpwys, neu dunnell a hanner, a chafodd ei hailgastio gan Barwells o Birmingham ym 1878 - y gloch fwyaf iddyn nhw'i llunio erioed. Roedd y contractwr a gafodd y gwaith o'i thywys yma wedi'i leoli a draws y ffordd inni, lle mae bar Fat Cat bellach!"

"Ar wahanol adegau yn y gorffennol, fe fu pum cloch. Yn ôl y sôn, dyma esgob arall - Arthur Bulkeley - yn gwerthu rhai ohonyn nhw, gan gael ei daro'n ddall pan fentrodd wneud hynny."

Mae Aine wedi dringo yma heddiw er mwyn ceisio canfod pam fod y cloc wedi peidio â chanu, felly dyma ni'n anelu am y cwpwrdd sy'n gornel. Mae mecanwaith y cloc yn cael ei gadw dan orchudd blastig oddeutu'r un maint â'r math o beth gewch chi i osod eich deunydd ailgylchu ynddo.

"Mae'n cael ei bweru'n drydanol ac er ei fod yn weddol hen, mae'n parhau i weithio'n dda. Os gofalwn ni amdano, fe sylwn fod ein cloc innau'n fwy cywir na'r un ar y tŵr yn bellach i lawr y stryd fawr!"

Wrth i Aine brofi mecanwaith y cloc, dwi'n sylweddoli mod i'n gallu clywed lleisiau pobl ar y stryd islaw. Mae'r lwfrau llechi yn y tŵr wedi eu llunio i chwyddo sain y cloc dros ddinas Bangor. Ond mae nhw hefyd yn gweithio i'r gwrthwyneb!

"Ie, wir, medrwch glywed sgwrs pobl wrth iddyn nhw sefyll yn cael smôc tu allan i dafarn Y Castell", ategai Aine.

*Achos o rhaid i beth bynnag ddaw i'r tŵr aros yn y tŵr?*

"Problem fwy ydy'r pethau ddylai ddim mynd i fyny'r tŵr. Colomennod. Waeth pa mor galed drïwn ni eu cadw allan gyda rhwydi, maen nhw'n canfod ffordd i mewn, gan adael eu carthion dros bob man a phopeth.

"Weithiau maen nhw'n mynd yn sownd, gan atal mecanwaith y cloc."

Diolch byth, chafodd 'run golomen ei niweidio wrth drwsio'r cloc heddiw - roedd darn o'r mecanwaith taro wedi dod yn rhydd. Mae Aine'n ailosod y gorchudd a draw â ni dros hen ysgol arall at do'r tŵr.

Mae Tŵr Skeffington yn anarferol yn yr ystyr eich bod yn cael y teimlad o fod yn y canol - yn syllu i lawr ar y strydoedd o amgylch y gadeirlan, ond eto'n parhau i edrych i fyny ar dŵr y brifysgol a thai Bangor Uchaf a Caellepa.

"Mae hi hefyd yn rhyfeddol o dawel", meddai Aine. "Mae hi fel tasech chi mewn swigen yng nghanol y ddinas, nid i fyny nac i lawr, gyda'r byd yn brysio heibio ichi wrth ichi oedi a mwynhau'r olygfa draw am Ynys Seiriol.

"A chael eich gwynt atoch cyn mentro nôl lawr unwaith eto!" **[B]**











"It's quite an impressive bell - it weighs about 30 hundredweight or one and a half tonnes, and was re-cast by Barwells of Birmingham in 1878 - the biggest bell they ever made. The contractor who had the job of getting it up here was based just across the road in what is now the Fat Cat bar!

"At various times in the past there have been five bells. According to legend, another bishop - Arthur Bulkeley - sold some of them off, and was struck blind when he did so."

Aine has come up here today to work out why the clock has stopped chiming, so we head over to the cupboard in the corner. The clock mechanism is housed under a plastic cover about the size of something you'd put your recycling in.

"It's electrically powered, and even though it's quite old, it still works well.

"If we look after it, then our clock is usually more accurate than the one in the red brick tower further down the high street!"

As Aine tests the clock mechanism, I realise I can hear people's voices from the street down below. The slate louvres in the tower are designed to magnify the sound of the clock to the city of Bangor. But they also work the other way!

"Yes, you can hear what people are saying as they stand having a cigarette outside Y Castell pub", Aine confirms.

Perhaps a case of *what goes up the tower, stays up the tower?*

"The bigger problem is what shouldn't go up the tower. Pigeons. No matter how hard you try to keep them out with netting, they find a way in and cover everything with droppings.

"Sometimes they get stuck, and jam the clock mechanism."

Thankfully, no pigeons were harmed in fixing the clock today - a piece of the striking mechanism had come loose. Aine replaces the cover, and we head over yet another ancient wooden ladder onto the roof of the tower.

The Skeffington Tower is unusual because you get a sense of being in the middle - looking down on the streets around the cathedral, but still looking up at the university tower and the houses of Upper Bangor and Caellepa.

"It's also unusually peaceful", says Aine. "It's as if you're in a bubble in the centre of the city, neither up nor down, with the world hurrying around you as you just stop and enjoy the view over to Puffin Island.

"And a chance to get your breath back before you go back down again!" **[B]**





# Grym cariad



Roedd hi'n fore Sul, oddeutu 8yb, a finnau'n darllen trwy fy mhregeth ar gyfer y bore hwnnw. Canodd cloch drws y ficerdy. Yn sefyll yno roedd dynes mewn tralod mawr - mi alwaf hi'n "Ethel".

Roeddwn i'n nabod Ethel fel un o'n haddolwyr mwyaf ymrwymedig a ffyddlon, ac yn un oedd yn adnabyddus iawn yn ei chymuned leol. Hi oedd yr un a oedd yn gofalu am famau sengl, a'u hebrwng i'r ysbyty ar gyfer genedigaeth eu plant, ac a sefydlodd grŵp iddyn nhw, dan arweiniad yr eglwys. Roedd hi'n un â llawer o gariad tuag ati hi. Roedd hyn yn galw am baned cryf o de.

Roedd ei mab, dewch inni roi'r enw "Mick", arno, yn 32 mlwydd oed, wedi cael ei arestio, a'i gyhuddo o lofruddiaeth.

Dros yr awr neu fwy a ddilynodd, daeth yr hanes allan yn raddol, ynghyd â dagrau, sioc, dicter, cywilydd, gwarth, difaru, edifeirwch a hunanfeio, a wnaed yn waeth gan nad oedd Mick yn dymuno'i gweld hi, a hynny, wrth reswm, yn ei brifo i'r byw. Fodd bynnag, fel gwraig â ffydd gref, "er fod trafferthion yn gwasgu o bob cyfeiriad, doedd hi ddim wedi cael ei llethu'n llwyr", fel dywed yr apostol Paul (**2 Corinthiaid 4:8**).

Yna rhannu tawelwch â'n gilydd, lle'r oedden ni'n gallu synhwyro presenoldeb Duw yn gryf; wedyn



# The power of love

A fedrwch chi faddau i  
rywun, hyd yn oed os  
ydyn nhw wedi llofruddio  
aelod o'ch teulu?

Rhannodd **Y Parchedig  
Ddr John Prysor-Jones**  
yr hanesyn hwn mewn  
pregeth yn ystod mis  
Mawrth.

Can you forgive someone,  
even when they've  
murdered one of your  
family?

The Reverend Dr John  
Prysor-Jones shared this  
story in sermon during  
March.

It was a Sunday morning at about 8am, I was reading through my sermon for later that morning. The vicarage doorbell rang. At the door was a very distressed woman - I shall call her "Ethel".

Ethel was well known to me as a faithful, committed worshipper, and well known in the local community.

She was the one who looked after the single mothers, went with them to hospital for the birth of their children, and set up a support group for them, hosted by the church. Much loved. Hot sweet tea was brought.

Her son, I shall call "Mick", then aged 32, had been arrested, and charged with murder.

For the next hour or so, out came the story, with tears, shock, anger, shame, humiliation, regret, remorse, and self-reproach, made worse, as Mick did not want to see her, and she was very hurt by this.

However, as a woman of strong faith, she was "cast down but not destroyed", as the apostle Paul puts it (**2 Corinthians 4:8**).

Then a shared silence, in which the presence of God was palpable; we prayed.

We went to the church together, and laid this all before God, in the Eucharist.



gweddio. Fe aethon ni i'r eglwys gyda'n gilydd, a chyflwyno hyn o flaen Duw, trwy'r Cymun. Un anodd fu ei mab, Mick, erioed, ond yn ffyddlon iawn i'w fam.

Fe es i i'w weld. Dim ond cyfarfyddiad byr oedd o - doedd o ddim eisiau 'ngweld innau 'chwaith, gan wneud hynny'n gwbl glir mewn iaith flodeuog iawn! Wrth imi adael, dywedais i rywbeth tebyg i, "nid fi yn unig oedd am eich gweld chi, ond eich mam hefyd. Mae hi'n eich caru, beth bynnag wnaethoch chi." 'Ches i ddim ymateb i hynny.

Doedd o ddim yn grediniwr, ond dwi'n cofio i lesu ymgysylltu â phobl nad oedd, o reidrwydd, yn rhannu ei ffydd, na'i ddiwylliant, na'i genedligrwydd hyd yn oed.

Yn dilyn euogfarn Mick, bu rota o bobl o'r eglwys a'r gymuned yn mynd ag Ethel yn rheolaidd i ymweld â Mick yn y carchar, a hynny'n gryn bellter. Ymhen amser, dechreuodd wynebu ei drosedd a'i ymddygiad mewn bywyd.

Dros amser, ac fe gymerodd hi flynyddoedd lawer, fe ildiodd Mick a rhyddhau ei hun o'r chwerwder diddiwedd, a llawer mwy, cyffesu a dod i heddwch â Duw ac, i ryw raddau, â fo'i hun. Gwnaeth ymrwymiad i lesu Grist, a chael ei gonffyrmio yn y carchar gan yr esgob, gan ddod yn fath o fentor i garcharorion iau, gyda chefnogaeth caplan ardderchog y carchar. Bu'n astudio ar gyfer gradd Prifysgol Agored.

Ond iddo fo, roedd rhywbeth yn eisiau. Fe wnaeth y pethau rhyfeddaf: fe sgwennodd at deulu'r dyn a lofruddiodd. Cafodd ymateb ganddyn nhw ac, yn y pen draw, fe drefnwyd i gyfarfod. Gelwir hyn yn "gyfiawnder atgyweiriol", ymadrodd chwithig braidd. Mae'n well gen i ei alw'n rywbeth arall, dynolrwydd dwfn, wedi'i gymell gan bresenoldeb yr lesu atgyfodedig, arllwysiad o gariad.

Roedd yna densiwn i ddechrau - geiriau, cyfnodau o dawelwch, dagrau, a mwy o ddagrau - galar ac edifar mawr. Cafwyd hefyd maddeuant, ac yn y diwedd, cafwyd cymod rhyngddyn nhw. Trwy gariad Ethel tuag at Mick, a chariad creadigol lesu, yn gweithio ym Mick, dros y carcharorion ifanc rheini, fe welwn ni gariad lesu, yng ngrym ei atgyfodiad. Mae gan fodau dynol, waeth beth maen nhw wedi'i wneud, neu heb wneud, y gallu i brofi o'i atgyfodiad.

Bu farw Mick, yn ddisymwth ac annisgwyl. Ond stori arall ydy honno. Rydw i y tu hwnt o ddiolchgar am bopeth a brofais i trwy Ethel, a Mick, ac am fywyd cymuned y plwyf.

Wrth inni symud trwy'r Grawys tuag at gyfnod y Pasg, tybed sut y gallen nhw fod o gymorth i ninnau yn yr amser a dreuliwn gyda'n gilydd? Dyma 'chydig o awgrymiadau. Grym cariad yr lesu atgyfodedig, dan yr amgylchiadau mwyaf anodd, yr ymateb i'r cariad hwnnw, cariad creadigol lesu Grist, yn dwyn rhywbeth i mewn i'r sefyllfa nad oedd yn gynt.







Goleuni'r gwanwyn yn troi gydag aroglarth ar ôl gwasanaeth diweddar

**Spring light mixes with incense after a recent service**

Her son Mick had always been a difficult person, but very loyal to his mother. I went to see him. It was a very brief meeting. He did not want to see me either, made clear in very unparliamentary language! As I left, I said something like, "it's not just me that wants to see you. It's your mother, she loves you, whatever you have done." No response to that.

He was not a believer, but I remember that Jesus engaged with people who did not necessarily share either his faith, or culture, or nationality.

Following Mick's conviction, a rota of people from the church and community took Ethel regularly to see Mick, in a prison far away. In time he began to face his crime and behaviour in life.

Over time (it took many years), Mick, let go of incessant bitterness and much more, he made his confession and was at peace with God, and in part, with himself. He made a commitment to Jesus Christ, was confirmed in prison by the bishop, became a kind of mentor to younger prisoners, supported by an excellent prison chaplain. He studied for an Open University degree.

But something was missing for him. He did the most remarkable thing; he wrote to the family of the man he had murdered. They responded, and eventually a meeting was arranged.





Giatiau'r gangell a seddau'r côr  
**Chancel gates and choir stalls**

Mae Mick yn cynnig inni ddealltwriaeth gynyddol ohonon ni'n hunain, nid trwy hunanholi diddiwedd, ond dealltwriaeth gonest o'r hyn ydyn ni, yr hyn rydyn ni wedi'i wneud, o'r hyn sy'n bosib inni'i wneud. Y gost o ryddhau ein hunain o hualau patrymau bywyd dinistriol, a rhagdybiaethau ffals. Y dewis arall i hyn ydy hunan-dwyll, yr amharodrwydd i wybod, a wynebu ein sefyllfa go iawn o flaen Duw.

Dyma'r pris a dalwn am ddal at yr hyn sydd ganddon ni, oherwydd mai dyma beth sy'n wybyddus inni, ac nad oes modd inni fod yn sicr fod y dyfodol yn cynnig unrhyw beth gwell. Wedi'n cysylltu â'r lle dwfn hwnnw, oddi fewn i ni'n hunain, y fan lle mae'n penderfyniadau mawr yn cael eu gwneud.

Mae'n gofyn cwestiwn neu ddau: a ydy fy nhueddiad sylfaenol tuag at Dduw neu tuag ataf fi fy hun? A ydw i'n hapus oherwydd daioni Duw tuag ataf, neu oherwydd mai fi ydy calon fy sylw?

Darganfod fy hun, y fi go iawn yn cael fy llunio, a'm derbyn am bwy ydw i. Mae'r gallu i dderbyn ein hunain ac eraill yn sylfaenol i'n bywydau ni. Felly, does dim rhaid imi fyw gyda'r disgwyliad mod i ddim ond o werth pan fydda i'n llwyddiannus, a all fy ngorfodi i wneud gofynion di-ri arnaf fy hun i geisio cyrraedd rhyw amcanion penodol. Yn hytrach na 'mod i'n llawenhau yn y person ydw i a mwynhau bod yn fi fy hun.



It is called “reparative justice”, an ugly phrase. I call it something else, a deep humanity, motivated by the presence of the risen Jesus, an outpouring of love.

It was tense to begin with, words, silences, tears, and more tears. “Cry me a river” might cover it. There was forgiveness, and eventually they were reconciled to each other. Through Ethel’s love for Mick, and Jesus’ creative love, working in Mick, for those young prisoners, we see the love of Jesus, in the power of his resurrection. Human beings, whatever they have done, or not done, are able to have an experience of his resurrection.

Mick died, suddenly and unexpectedly. But that is another story. I am profoundly grateful for all that Ethel, and Mick, brought to me, and the life of the parish community.

As we move through Lent towards Eastertide, I wonder what they might help us with, in our time together? I suggest a few things. The power of love, of the resurrected Jesus, in the most difficult of circumstances, the response to that love, that creative love of Jesus Christ, bringing something into the situation that was not there before.

Mick offers a growing understanding of ourselves, not by endless introspection, but an honest knowledge of who we are, what we have done, of what we are capable. The cost of letting go of destructive life patterns, and false assumptions. The alternative is self-delusion, the unwillingness to know, and face our real situation before God.

It is the price we pay, for holding on to what we have, because it is what we know, and we cannot be sure that the future holds anything better. Being in touch with that place deep inside ourselves, where we make our big decisions.

Gwyn ag aur ar gyfer y Pasg - gwisgoedd yn barod ar gyfer gwasanaeth  
**White and gold for Eastertide: robes laid out for a service**



Er mwyn i hynny ddigwydd, meddai Iesu, "Petaet ti, hyd yn oed heddiw, ond wedi deall beth fyddai'n dod â heddwch parhaol i ti..... y foment honno pan ddaeth [Duw] i dy helpu di." (Luc 19:41, 44)

Mae hi'n rhy rwydd i ni gydnabod y Grawys heb gymryd rhan. Gall ymwrthod â rhywbeth dros y cyfnod hwn fod yn ffordd i osgoi'r gwaith dyfnach hwn.

Sylweddolodd Ethel bod Iesu'n adnabod ac yn caru'r daioni sydd i'w ganfod yn y rhai hynny sydd ddim yn debyg iddo Fo, nac yn debyg i ninnau. Iddo sefyll gyda'r rhai dirmygedig a gwrthodedig. Fe safodd hithau gyda Mick. Iddi hithau, fel ag i ninnau, y gwirioneddau oesol ydy ffydd, gobaith, a chariad. Y rheini sy'n ei gwneud hi'n bosib i fyw tuag at ddyfodol a'i greu'n rywbeth sy'n cyfoethogi ac yn ddirchafol. Mae Crist, eu ffynhonnell, yn dod â chyflawnder, bywyd, egni, yng ngrym ei atgyfodiad o'n mewn, gan ddwyn i brofiad dynol, llawenydd, diolchgarwch, haelioni, tosturi.

Mae Iesu'n parhau i wneud pethau'n newydd, fel ag y gwnaeth i Ethel a Mick, felly hefyd y gall yntau ei wneud i ninnau; dydyn ni byth wedi'n gorffen, fe allwn ni ddod i fod, gan dyfu yn ein dawn a'n gallu i garu.

Y bara a dorrwn yn yr Ewcharist hwn, onid dyma gorff Crist, a dorrwyd er eich mwyn? Rhyddheir ei rym creadigol i wneud pethau'n newydd, i ddod i fodolaeth bethau nad oeddynt yno o'r blaen. Dyma oedd y profiad i Ethel a Mick, ond nid pregeth amdany'n nhw ydy hon mewn gwirionedd. Yn hytrach, mae'n ymwneud â phob un ohonon ni, a'n perthynas â Iesu. **[B]**

Isod: golygfa o seddau'r côr a llestri'r cymun

Tudalen nesaf: llestri pres y Gadeirlan; canwyllbrennau'r allor a thuser arogldarth

**Below: view along the choir stalls and communion plate**

**Next page: cathedral brassware; altar candlesticks and incense thurible**







It asks a question or two: is my basic orientation towards God or to myself? Am I happy because of God's goodness to me, or because I am the centre of attention?

Discovering who I am, my true self being made, being accepted as who I am. It is fundamental to our lives, to be able to accept ourselves and others. So I do not have to live with the expectation that I am only of worth when I am successful, which can force me to make endless demands, on myself to achieve particular goals. Rather for me to rejoice in the person I am and enjoy being myself.

For that to happen Jesus says, "if only you had known the way to peace, recognising God's moment when it comes." (Luke 19:41)

It is extremely easy for us to observe Lent without getting involved. Giving something up can be a way of avoiding this deeper work.

Ethel realised that Jesus recognises, and loves, the good in those who are not like him, or like us. That he stood alongside the despised and rejected. She stood by Mick. For her, as for us, the abiding realities are faith, hope, and love. They make it possible to live towards our future, and make it something that is enriching and enhancing. Christ, their source, brings wholeness, life, energy, in the power of his resurrection within us, bringing into human experience, joy, thankfulness, generosity, compassion.

Jesus continues to make things new, as he did for Ethel and Mick, so he can for us. We are never finished. We can become, growing in our capacity to love.

The bread which we break in this Eucharist, is it not the body of Christ, broken for you? Releasing its creative power to make things new, to bring into being things not there before. This was the experience for Ethel and Mick, but this sermon is not really about them. It is about each one of us, and our relationship with Jesus. [B]






# Ein cymdogaeth ym Mangor Our Bangor neighbourhood

Saif Cadeirlan Deiniol Sant ar ganol stryd fawr hiraf Cymru - 1,265m, neu oddeutu milltir, o un pen i'r llall. Yn ddiweddar, bu pryderon ynghylch dyfodol y Stryd Fawr.

Ym **Muchedd Bangor** rydym yn cwrdd â rhai o'r bobl sy'n gweithio i geisio gwneud canol y ddinas yn le ffyniannus.

Yn y rhifyn hwn, anelwn ddau floc o'r gadeirlan at un o fusnesau hynaf Bangor - Penguin Café teulu Antoniazzi.

Mae'r perchennog, Nick Antoniazzi yn paratoi i ddatlu darn o hanes y ddinas.....






Saint Deiniol's Cathedral stands at the centre of the longest high street in Wales - 1,265m or around a mile long. But recently there's been concern about the High Street's future.

In **Buchedd Bangor** we're meeting some of the people who are working to make our city centre a thriving place.

In this edition, we head two blocks away from the cathedral to one of the oldest businesses in Bangor - Antoniazzi's Penguin Café.

Owner Nick Antoniazzi is preparing to celebrate a piece of the city's history.....





## Dwi dal ddim yn coelio fod y busnes yn 90 mlwydd oed ym mis Mehefin.

Fi ydy trydedd genhedlaeth teulu'r Antoniazzi i fod wedi gweithio yma; yr un caffi a'r un adeilad ar Stryd Fawr Bangor. Fel y gallwch ddyfalu, daeth y teulu'n wreiddiol o Bardi yn yr Eidal. Cerddodd fy hen daid, Andrea Antoniazzi, i Gymru, gan gyrraedd yma ym 1898.

Fe fu'n gwerthu cnau castan i'r glowyr yn Ne Cymru ac, yn ôl y sôn, roedd yn giamstar ar wneud hufen iâ, ac yn y pen draw, roedd cadwyn o gaffis ledled Cymru dan reolaeth gwahanol ganghennau o'r teulu. Roedd teuluoedd Eidalaid eraill yn gwneud yr un peth, ac erbyn y 1930au, roedd caffis Eidalaid wedi codi fel madarch trwy Gymru.

Diweddodd taid a nain, Giovanni a Rosa, ym Mangor, gan agor y caffi hwn. Ond doedd hi fawr o amser cyn i'r enw newid. Pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd, doedd gweld yr enw Antoniazzi uwchben siop ddim yn syniad da, gan fod Yr Eidal yn un o'r cynghreiriaid a oedd yn ymladd yn erbyn y DU.

Felly, dyma newid yr enw i "Penguin Café". Doedd hyd yn oed hynny'n fawr o help i taid 'chwaith - cafodd ei arestio am ddim byd





## I still can't believe this business is 90 years old in June.

I'm the third generation of the Antoniazzi family to have worked here; same café, same building on Bangor High Street. As you can probably guess, the family originally came from Bardi in Italy. My great grandfather Andrea Antoniazzi walked to Wales, arriving here in 1898.

He sold chestnuts to the miners in South Wales, and apparently he knew how to make great ice cream, and eventually there was a chain of cafes around Wales run by different branches of the family. Other Italian families were doing the same, and Wales had plenty of Italian cafes in the 1930s.

My grandparents Giovanni and Rosa ended up in Bangor, and opened this café. But it didn't stay as Antoniazzi's for long. When the Second World War broke out in 1939, it wasn't a good idea to have an Italian name, as Italy was one of the countries the UK was fighting against.

So they changed the name to "Penguin Café". That didn't help my grandfather though - he ended up being arrested simply for being Italian, and spent most of the war in a camp on the Isle of Man, leaving my grandmother to run the business by herself. The locals here in Bangor made a huge effort to support the family and the café right through the war. The police even came to visit my grandfather one evening to warn him that he would be arrested next day so he had more time to pack and get prepared!

The High Street cafe ended up in my dad's hands. I wasn't planning to get involved, and had been working as a welder. But I ended up



mwy na bod yn Eidalwr, gan dreulio'r rhan fwyaf o'r rhyfel mewn gwersyll ar Ynys Manaw, gan adael nain i gynnal y busnes ei hun. Gwnaeth y trigolion yma ym Mangor ymdrech enfawr i gefnogi'r teulu a'r cafffi trwy gydol y rhyfel. Daeth yr heddlu lleol, hyd yn oed, i weld taid un noson, i'w rybuddio y byddai'n cael ei arestio'r diwrnod canlynol, er mwyn rhoi mwy o amser iddo bacio a pharatoi!

Diweddodd y cafffi hwn ar y Stryd Fawr yn nwylo 'nhad. Doeddwn i ddim wedi bwriadu bod yn rhan ohono a bues i'n gweithio fel weldar. Ond y diwedd fu imi helpu allan ar adegau prysur, a datblygodd hynny i helpu'n fwy aml. Ac yna, wedi i dad ymddeol, daeth y busnes yn eiddo i mi. Chafwyd 'rïoed sgwrs go iawn am y peth, a deud y gwir.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi dyblu maint y cafffi trwy gael estyniad yn y cefn, a gosod blaen newydd i'r siop. Rydyn ni hefyd wedi dychwelyd rhywfaint at ein gwreiddiau mewn gwirionedd. Yn 2013, ddaethon ni ag enw'r teulu nôl a'i alw'n Penguin Café Antoniazzi.

Ac fe wnaethon ni ddechrau gwneud hufen iâ eto. Mae'n golygu aros yn hwyr i basteureiddio'r llefrith a dod i mewn yn gynnar i gychwyn y peiriannau gwneud hufen iâ, ond mae o werth o, a dwi'n gobeithio ein bod ni'n cadw'n ffyddlon i'r ffordd y gwnaeth fy nhaid a'm hen daid adeiladu'r busnes.





helping out at busy times, and then helping out a bit more often. And then when my dad retired, the business just became mine. There was never really a conversation about it.

Over the last few years, we've doubled the size of the café by extending backwards, and installed a new shop front. We've also gone back to our roots a little bit. In 2013, we brought back the family name and became Antoniazzi's Penguin Café.

And we started making ice cream again. It means staying late to pasteurise the milk and coming in early to set the ice cream makers going, but it's worth it, and I hope it's faithful to the way my grandfather and great grandfather built up the business.

The café is actually quite different from when my grandfather first opened it. Back then, it would have mainly served coffee, cake and ice cream. We still do that, of course, but I've added pasta dishes, pizzas and paninis to the menu because it fits the Italian theme of the café, and there's plenty of demand for them.

We try to make as much as we can fresh and in-house. To be honest, if you're making a pasta dish, it's actually quicker to make it to order than it is to go to a freezer and warm up something you've bought in from a catering suppliers!







Mae'r cafffi, mewn gwirionedd, yn reit wahanol i'r hyn yr oedd pan yr agorwyd o gyntaf gan 'nhaid. Bryd hynny, fe fyddai'n bennaf yn gweini coffi, cacennau a hufen iâ. 'Da ni'n dal i wneud hynny, wrth gwrs, ond dwi wedi ychwanegu seigiau pasta, pizza a paninis at y fwydlen gan eu bod yn gweddu i thema Eidalaid y cafffi, ac mae digon o alw amdanyn nhw.


Rydyn ni'n ceisio gwneud cymaint ag sydd bosib yn ffres ac yn fewnol. A bod yn onest, os ydych chi'n gwneud saig pasta, mae'n gynt i'w wneud eich hunan i archeb, yn hytrach na mynd i'r rhewgell a chynhesu rhywbeth wnaethoch chi'i brynu gan gyflenwyr arlwyio!

Mae'r newid sydd wedi digwydd i'r stryd fawr dros y blynyddoedd diwethaf yn amlwg iawn, a sut mae'r nifer o siopau gweigion wedi cynyddu. Y rhan tristaf ydy y bu i Fangor, llai nag ugain mlynedd yn ôl, ennill gwobr am ansawdd ei busnesau bychain. Mae'r dirwyriad wedi digwydd yn sydyn ac mae'n teimlo y bydd yn cymryd cryn amser i'w adfer eto - os yw hynny hyd yn oed yn bosibl.

Fodd bynnag, mae'n gysur meddwl fod Bangor yn parhau i fod yn ddinas gadeiriol. Mae gan y gadeirlan botensial enfawr i fod yn rhan o ailadeiladu delwedd a statws Bangor. Wrth gamu i mewn iddi, rydych chi'n camu i ganol hanes Bangor, ond mae'r adeilad yn dal yn fyw ac yn cael ei ddefnyddio i'r un pwrpas ag y'i hadeiladwyd.

Y peth arall sydd heb newid ydy'r anwyldeb sydd gan y gymuned tuag at y cafffi hwn. Mae ganddon ni lwyth o gwsmeriaid rheolaidd sy'n cadw ni i fynd, ac sy'n dal i alw heibio am goffi yn y boreau. 'Da ni'n wirioneddol ddiolchgar iddyn nhw, a'n gobaith ni ydy y medrwn ni wneud ein rhan fach i gadw ymdeimlad o gymuned ym Mangor.

Ac o ran y dyfodol? Mae'r mab acw'n gweithio fel saer coed, mae'r ferch yn hedfan am Awstralia ym mis Medi, felly does yr un o'r ddau yn dangos unrhyw arwyddion eu bod am ddilyn yn ôl traed eu hen, hen daid hyd yn hyn. Ond, pwy a wŷr..... **[B]**





It's really noticeable how the high street has changed in recent years, and how the number of empty shops has increased. The saddest part is that less than twenty years ago, Bangor won an award for the quality of its small businesses.

The decline has come quickly, but it feels as if it will take a long time to build back - if ever.


It does mean that it's reassuring that Bangor is still a cathedral city. The cathedral has huge potential to be part of rebuilding Bangor's image and status.

If you go inside, you are standing in the city's history, but the building is still alive and being used for the same purpose as it was built.

The other thing that hasn't changed is the affection that the community has for this cafe. We have loads of regulars who have kept us going, and who still call in for coffee in the morning. We're really grateful to them, and hope we can do our bit to keep a sense of community in Bangor.

As for the future? My son works as a joiner, and my daughter is off to Australia in September, so neither are showing any signs of following in their great, great grandfather's footsteps just yet. But who knows..... **[B]**





Ein cymdogaeth  
ym Mangor  
Our Bangor  
neighbourhood

**O gasgliadau  
Storiel**

**From the  
Storiel collections**

Mae **Storiel**, amgueddfa ac oriel sirol Gwynedd a phartner agos i Brifysgol Bangor, yn gymydog inni yng Nghlos y Gadeirlan.

Mewn cydweithrediad â Chyfeillion Storiel, mae **Buchedd Bangor** yn cynnwys gwrthrych o gasgliad Storiel ym mhob rhifyn.

**Storiel**, the county museum and gallery for Gwynedd, and a close partner of Bangor University, is our neighbour in the Cathedral Close.

In collaboration with the Friends of Storiel, **Buchedd Bangor** features in each issue an object from Storiel's collection.





## O Fehefin 29ain, bydd Storiel yn cynnal arddangosfa o ddarluniau gan Frank Brangwyn (1867-1956), un o artistiad mwyaf adnabyddus diwedd y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif.

Er gwaethaf ei enw, fe'i ganwyd yng Ngwlad Belg a byw'r rhan fwyaf o'i oes yn Lloegr. Ond, ychydig cyn ei farw, fe gyflwynodd swmp o'i waith i Brifysgol Bangor.

Yn yr erthygl hon, mae **Jeremy Yates**, cadeirydd Cyfeillion Storiel, yn ein tywys trwy rai o'r delweddau a fydd yn cael eu harddangos: darluniau o "L'Ombre de la Croix", llyfr sy'n dogfennu bywyd dwy gymuned Iddewig yn Nwyrain Ewrop.



**Y**n 1931, fe gyhoeddodd Editions Lapina o Baris ddwy gyfrol, gyda'r testun gan yr ysgolheigion o Baris, y brodyr Jean a Jérôme Tharaud. Roedden nhw'n cynnwys 73 o ddarluniau gan yr artist, argraffydd a darlunydd clodfawr, Frank Brangwyn RA.

Cyhoeddwyd eu testun yn gyntaf ym 1914 mewn cylchgrawn ym Mharis, ac yna fel llyfr yn 1920.

Mae'n hanes a leolwyd mewn dau bentref a oedd, at ei gilydd, o'r diwylliant Iddewig uniongred: Belz yng Ngwlad Pwyl, canolfan bererindota astudiaethau Hasidaidd, a Hounfalou ym Mynyddoedd Carpathian (Hwngari ein dyddiau ni). Mae'r naratif canolog yn ymwneud â chynhyrchu a chaffael fersiwn ysgolheigiadd o'r Tora ar gyfer pentref Hounfalou a gomisiynwyd ac a gynhyrchwyd yn Belz gan y sopher, neu'r trawsgrifiwr mwyaf addysgiedig.

Fe'i disgrifiwyd fel astudiaeth cydymdeimladol o fywyd a chymdeithas Iddewig ac heb os, mae hynny'n cael ei gyfleu mewn modd sensitif trwy'r darluniau.

Mae hi'n ymddangos fod Brangwyn yn gweithio ar ei gyfansoddiadau o ddiwedd y 1920au, gan ddefnyddio ffotograffau a ddarparwyd gan y brodyr Tharaud, a fu'n teithio'n eang yn Nwyrain



**From 29th June, Storiel will be holding an exhibition of illustrations by Frank Brangwyn, one of the best-known artists of the late 19th and early 20th century.**

Despite his Welsh name, he was born in Belgium and lived most of his life in England. But shortly before his death, he donated a large amount of his work to Bangor University.

**Jeremy Yates**, chairman of the Friends of Storiel, talks us through some of the images that will be on display: illustrations from “L’Ombre de la Croix”, a book documenting the life of two Jewish communities in Eastern Europe.

**I**n 1931, the publisher Editions Lapina of Paris issued a two-volume publication, with a text by the Paris-based scholars and brothers Jean and Jérôme Tharaud. It was called “L’Ombre De La Croix”, and included 73 illustrations by the renowned artist, illustrator and printmaker Frank Brangwyn RA (1867-1956). Their text was first published in 1914 in a Paris journal, then later as a book in 1920.

It is a tale set in two villages of predominantly orthodox Jewish culture: Belz in Poland, a pilgrimage centre for Hassidic studies, and Hounfalou in the Carpathian mountains (modern-day Hungary).


The central narrative concerns the production and acquisition of a scholarly version of a sacred Tora for the village of Hounfalou commissioned and produced in Belz by the most learned sopher, or scribe.

It has been described as a sympathetic study of Jewish life and society and is undoubtedly rendered sensitively by the illustrations.

It seems that Brangwyn was working on his compositions from the late 1920s, using photographs provided by the Tharaud brothers who had travelled widely in Eastern Europe, and by Ilya Lapina.

Lapina had moved from Russia to Paris and had opened a publishing company by 1908 selling picture postcards, and printing other texts, several by poets of distinction.

Although much travelled in Europe and North Africa, Brangwyn did not know Eastern Europe - his illustrations are therefore sometimes straightforward renderings of the photographs but often creative



Ewrop, a chan Ilya Lapina.

Roedd Lapina wedi symud o Rwsia i Barios ac wedi agor cwmni cyhoeddi erbyn 1908, yn gwerthu cardiau post, ac argraffu testunau eraill, llawer ohonyn nhw gan feirdd o fri.

Er iddo deithio'n eang yn Ewrop a Gogledd Affrica, doedd Brangwyn ddim yn nabod Dwyrain Ewrop - mae ei ddarluniau, o'r herwydd, weithiau'n ddehongliadau plaen o'r ffotograffau ond yn aml yn amrywiaethau creadigol ar y delweddau hynny, o bryd i'w gilydd heb darddiad ffotograffig adnabyddus.

Tra bo'r brodyr Tharaud yn academyddion oedd â diddordeb a gwybodaeth am y diwylliant Iddewig a diwylliannau eraill, nid un felly oedd Brangwyn, ac eto, mae ei ddelweddau llawn dychymyg yn gydnaws, gan greu byd credadwy o fywyd-pob-dydd yn y ddwy gymuned hon.

O ddechrau'r naratif, sefydlir tlodi pentref ac Iddewon Hounfalou, ac mae Brangwyn yn dod â hyn yn fyw heb orfod ymostwng at ddehongliadau o aflendid neu warth.

Fel un a fagwyd yn Babydd, ei gonsyrn oesol oedd dros y rhai difreintiedig yn ei destunau, y rhai hynny y mae eu llafur anhepgor yn cynnal y byd diwylliannol modern. Wedi gweithio yn stiwdio William Morris fel artist ifanc, fe gadwodd at ei dueddiadau Cristnogol a sosialaidd, heb 'chwaith erioed droi'n ymgyrchydd nag yn aelod o unrhyw blaid wleidyddol.


Roedd ei natur dyngarol, a gyflewyrdd trwy iddo gyfrannu llawer o'i weithiau i amgueddfeydd ledled y byd, yn deillio o'i ddymuniad i annog mynediad at natur moesol ac ysbrydol ddyrchafol celfyddyd. Felly, fe wasanaethodd prosiect darlun L'Ombre de la Croix yn dda iddo er, yn baradocsaid, ar lefel miniatur a chyfyngedig: mae sawl un o'r darluniau yn eithriadol fach o ran maint.

Ond, maen nhw'n waith meistr llinellau ysgythr sych - a luniwyd gyda blaen nodwydd ar blât copr.

Bydd dewis o'r tair set o ddarluniau prawf gan Editions Lapina yng nghasgliad Bangor yn cael eu harddangos yn Storiol o Fehefin 29ain, 2024, ynghyd â phrintiau eraill gan Brangwyn sydd ym meddiant y brifysgol.

Bydd yr arddangosfa nid yn unig yn dathlu catalog raisonné diweddar Dr Libby Horner o holl brintiau Brangwyn, ond bydd hefyd yn gweld lansio cyhoeddi fersiwn Saesneg o L'Ombre de la Croix gyda darluniau Brangwyn.

Mae Dr Horner wedi comisiynu'r cyfieithiad gan Diane Krips Kremer, gyda thraethawd cyflwyniadol arbennig gan Dr Nathan Abrams o Brifysgol Bangor. **[B]**



variations on those images, occasionally with no known photographic origin.

While the Tharaud brothers were academics with an interest in and knowledge of Jewish and other cultures, Brangwyn was not, yet his imaginative images are wholly in keeping, creating a believable world of everyday life in these two communities.

From the start of the narrative the poverty of the village and the Jews of Hounfalou is established and Brangwyn's images bring this to life without resorting to depictions of squalor or degradation. Brought up a Catholic, his lifelong concern was for the underprivileged in his subjects, those whose indispensable labour underpins the modern industrial world.


Having worked in the studio of William Morris as a young artist, he retained Christian and socialist inclinations while never becoming either a campaigner or a member of any political party. His philanthropic nature, epitomized by his many donations of work to museums worldwide, sprang from a desire to encourage access to the morally and spiritually uplifting nature of art.


So the L'Ombre de la Croix illustration project served him well, if paradoxically on a miniature and restricted level: many of the illustrations are almost thumbnail in scale. But they are work of a master of line in drypoint etching - drawn with a needle-fine point on a copper plate.

A selection of the three sets of proof illustrations by Editions Lapina in the Bangor collection will be on display at Storiel from 29th June 2024 along with the university's other prints by Brangwyn.

The exhibition will celebrate not only Dr Libby Horner's recent catalogue raisonné of all Brangwyn's prints, it will also see the launch of the publication of an English language version of L'Ombre de la Croix with Brangwyn's illustrations.

Dr Horner has commissioned the translation from Diane Krips Kremer, with a special introductory essay from Dr Nathan Abrams of Bangor University. **[B]**





**Y Dyddiadur**

**The Diary**

**Datganiadau | Recitals**

**Darlithoedd | Lectures**





# Datganiadau cerdd

## Music Recitals

POB DYDD IAU

1.15PM

CERDD AMHRISIADWY  
MYNEDIAD AM DDIM

Ymunwch â ni am baned, cacen a chyfle i glywed datganiad gan artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol dawnus.

EVERY THURSDAY

1.15PM

PRICELESS MUSIC  
FREE ENTRY

Join us for tea, cake and a chance to hear a recital from talented local, national and international artists.

18 EBRILL

SEBASTIAN WYSS A  
DYLAN LATHAM  
FEIOLIN A FIOLA

Mae Sebastian Wyss wedi astudio yn y Birmingham Conservatoire ac Academi Liszt yn Budapest. Heddiw mae'n ymuno gyda Dylan Latham, sydd ar hyn o bryd yn y Royal Northern College of Music, i gyflwyno rhaglen o ddeuawdau feiolin a fiola gan Mozart a Martinu.

18 APRIL

SEBASTIAN WYSS &  
DYLAN LATHAM  
VIOLIN & VIOLA

Sebastian Wyss has studied at Birmingham Conservatoire and the Liszt Academy in Budapest. Today, he partners with Dylan Latham, currently at Royal Northern College of Music, to bring us a programme of duos for violin and viola by Mozart and Martinu.

25 EBRILL


HANNAH COPNER  
SOPRANO


Yn fyfyrwr gradd meistr mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor, mae Hannah (chwith) hefyd yn ysgolhaig ar gân yma yn y gadeirlan. Bydd ei datganiad heddiw yn cynnwys cerddoriaeth sanctaidd Baroc o Bach i Barbara Strozzi, wedi eu dilyn gan arias operâu gan Handel, Mozart a Britten.

25 APRIL

HANNAH COPNER  
SOPRANO

A masters music student at Bangor University, Hannah (left) is also a choral scholar here at the cathedral. Today's recital includes Baroque sacred music from Bach to Barbara Strozzi, followed by soprano opera arias by Handel, Mozart and Britten.





---

**2 MAI**  
**SEB CLAXTON**  
**UWCH-DENOR**

Mae Seb yn ysgolhaig ar gân yng Nghadeirlan Bangor, ac yn ei flwyddyn olaf yn gwneud gradd yn y brifysgol. Yn ei gyfnod yn canu gyda chôr y Gadeirlan datblygodd enw da yn fuan iawn am ei lais esmwyth ond grymus, ar ystod uchaf y llais gwrywaidd.

---

**9 MAI**  
**ALYS BAILEY-WOOD**  
**TELYN**

Yn gyn fyfyrwr gradd meistr yma ym Mangor, mae Alys (chwith) yn canu'r delyn mewn cyngherddau a digwyddiadau ledled Cymru a thu hwnt, yn ogystal â chymryd rhan yn ddiweddar mewn recordiad yn yr enwog Abbey Road Studios.

---

**16 MAI**  
**PEDWARAWD LLINYNOL**  
**Y FENAI**

Yn "uwch-grŵp llinynnau" o gerddorion o Brifysgol Bangor ac ardal Gwynedd, bydd Pedwarawd Menai yn perfformio gweithiau gan Beethoven, Dvorak a Gershwin.

---

**23 MAI**  
**JOE COOPER**  
**BAS**

Mae ein Cyfarwyddwr Cerdd yng Nghadeirlan Bangor, Joe Cooper, hefyd yn Gyfarwyddwr Cerdd y Brifysgol yma yn y ddinas. Ond heddiw bydd yn wynebu'r gynulleidfa, ac yn arddangos ei lais bas-bariton cyfoethog ei hun.

---

**2 MAY**  
**SEB CLAXTON**  
**COUNTER TENOR**

Seb is a choral scholar at Bangor Cathedral, and in the final year of a degree at the university. While singing with the cathedral choir he has quickly built a reputation for his smooth, but powerful voice, right at the top of the male range.

---

**9 MAY**  
**ALYS BAILEY-WOOD**  
**HARP**

A former masters student here in Bangor, Alys (left) now plays harp at concerts and functions around Wales and beyond, as well as recently taking part in a recording at the famous Abbey Road Studios.

---

**16 MAY**  
**MENAI STRING QUARTET**

A "string supergroup" of musicians from Bangor University and the Gwynedd area, the Menai Quartet will be performing works by Beethoven, Dvorak and Gershwin.

---

**23 MAY**  
**JOE COOPER**  
**BASS**

Our Director of Music at Bangor Cathedral, Joe Cooper is also the Director of University Music here in the city. But today he will be facing the audience, and showing off his own rich bass-baritone voice.



---

**30 MAI**

**DANIEL PETT & ALEX DAKIN  
FIOLA A PIANO**

Mae Daniel yn glerc lleyg yng Nghadeirlan Bangor; heddiw mae'n gweithio gydag Alex Dakin i ddod â cherddoriaeth i ni o 1911 hyd heddiw. Mae'r ddau'n gyfansoddwyr yn ogystal â bod yn offerynwyr, a byddent yn arddangos eu gwaith eu hunain yn ystod y perfformiad.

---

**6 MEHEFIN**

**NEMO RICHARDS  
MEZZO-SOPRANO**

Yn wreiddiol o Bowys, mae Nemo wedi bod yn aelod o gorau Cadeirlannau Aberhonddu a Bangor, ac mae'n dal i wneud argraff gydag ystod, dawn a phurdeb ei llais.

---

**13 JUNE**

**SAMUEL JOHNSON  
TRUMPET**

Yn astudio yn Conservatoire Brenhinol Birmingham, daw Samuel â cherddoriaeth pres i Fangor gyda rhaglen amrywiol o weithiau unawd.

---

**20 JUNE**

**SIMON LAWFORD  
ORGAN**

Mae Simon wedi chwarae'r organ ac arwain corau mewn cadeirlannau blaenllaw o Rydychen a Peterborough i Awstralia, yn ogystal ag ymddangos ar sawl recordiad. Yn gyfaill hir-dymor i Gadeirlan Bangor, mae'n dychwelyd i'r ddinas i roi prawf ar allu ein horgan.

---

---

**30 MAY**

**DANIEL PETT & ALEX DAKIN  
VIOLA AND PIANO**

Daniel is a lay clerk at Bangor Cathedral; today he teams up with Alex Dakin to bring us music from 1911 to the present day. Both are composers as well as instrumentalists, and will be showcasing their own work during the performance.

---

**6 JUNE**

**NEMO RICHARDS  
MEZZO-SOPRANO**

Originally from Powys, Nemo has been a member of the choirs of both Brecon and Bangor Cathedrals, and continues to impress with the range, versatility and purity of her voice.

---

**13 JUNE**

**SAMUEL JOHNSON  
TRUMPET**

Currently studying at Royal Birmingham Conservatoire, Samuel brings brass to Bangor with a varied programme of solo works.

---

**20 JUNE**

**SIMON LAWFORD  
ORGAN**

Simon has played the organ and directed choirs in major cathedrals from Oxford and Peterborough to Australia, as well as appearing on several recordings. A long-standing friend of Bangor Cathedral, he returns to the city to put our organ through its paces.

---





# Darlithoedd

